# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.00 ar 19 MAWRTH 2021, trwy Zoom.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair); y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Mr George Ashworth; Ms Samantha Blackie (o gofnod 42); Ms Meri Huws; Mr Morgan Lewis, Llywydd UMCA; Dr Louise Marshall; Mr Nathaniel Pidcock, Llywydd UMAber; Ms Rhuanedd Richards; Ms Fiona Sharp; Mr Mark Tweed; Ms Kath Williams; Dr William Williams; Yr Athro Syr Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar (tan gofnod 51).

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Ms Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Ms Sharron Lusher; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (ar gyfer cofnod 47.1); Mr Jim O'Rourke, Rheolwr Prosiect yr Hen Goleg (ar gyfer cofnod 47.1); Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms Kate Eden.

**36. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

1. Croeso

   Roedd Sharron Lusher, aelod annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (Ll&Ch), yn bresennol yn y cyfarfod fel sylwedydd.

2. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. John Corfield, cyn Brif Arddwr;
   2. Morton Davies, cyn Uwch Ddarlithydd yn yr Adran Mathemateg;
   3. Tun Dr Mohamed Salleh Abas, Cymrawd Anrhydeddus; a
   4. Euryn Ogwen Williams, Cymrawd Anrhydeddus.

3. Llongyfarchion

   Llongyfarchwyd Rhuanedd Richards ar ei phenodi'n Gyfarwyddwr Cynnwys a Gwasanaethau gyda BBC Cymru.

4. Dull cynnal y Cyfarfod

   Er mwyn cynnal cyfarfod effeithiol ar-lein, gofynnwyd i aelodau roi rhybudd ymlaen llaw pe byddent yn dymuno trafod eitem a nodwyd â seren ar yr agenda. Ni wnaed cais, a

byddai'r eitemau dan sylw felly yn cael eu cymeradwyo neu eu nodi yn unol â'r argymhelliad a nodwyd ar y flaenddalen.

**37. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

**38. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020, a 12 Ionawr 2021 (COU2021-087).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**39. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi’r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2021-088).

NODWYD

1. Ail-ddynodi Cronfeydd Gwaddol (cofnod 28.5)

   Ar sail cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd ac a rannwyd â'r Cyngor yn y cyfarfod blaenorol, roedd yr ail-ddynodi dan sylw wedi'i gwblhau heb droi at y Comisiwn Elusennau.

2. Y diweddariadau eraill a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

**40. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-089).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y cafodd materion eu cymeradwyo gan aelodau trwy ohebiaeth, neu gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.

2. Y mater a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:

   1. y penderfyniad ffurfiol yr oedd Banc NatWest ccc ei angen yng nghyswllt diwygio'r Adnodd Credyd Cylchdroawl a Chytundeb Adnodd y Cynllun Amharu ar Fusnes Mawr gan Coronafeirws.

3. Cymeradwywyd y canlynol gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor:

1. gwaredu tir a ddefnyddiwyd i greu Cyfnod II y Llwybr Cyd-ddefnyddio o Gampws Gogerddan i Benrhyn-coch (ar argymhelliad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph)); a
2. cyflwyno amrywiad ar Gynllun Ffioedd a Mynediad 2021-22 i'r Cyngor Cyllido (ar argymhelliad Grŵp Goruchwylio'r Cynllun Ffioedd a Mynediad).

**41. GOHEBIAETH**

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

**42. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2021-090).

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad o'r Senedd; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.

2. Amcanwyd bod 40 y cant o'r myfyrwyr wedi dod nôl i lety Prifysgol neu i lety preifat yn Aberystwyth. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y rhan fwyaf o'r myfyrwyr hyn yn ymddwyn yn gyfrifol, ac mai ychydig bryderon ynglŷn ag ymddygiad a godwyd gan yr awdurdod lleol.

2. Cyhyd ag y byddai'r gostyngiad cyfredol yng ngraddfa heintio Covid-19 yn parhau rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod y byddai myfyrwyr yn cael caniatâd cyffredinol i ddod nôl i gampysau prifysgolion yng Nghymru ar gyfer dysgu cyfunol o fis Ebrill 2021 ymlaen. Byddai'r Brifysgol felly yn gallu ailgydio yn y dysgu wyneb yn wyneb o ddechrau'r trydydd tymor, ac roedd paratoadau priodol yn cael eu gwneud erbyn hyn. Pwysleisiodd yr aelodau pa mor bwysig yw rhoi gwybod i'r gymuned leol ynglŷn â datblygiadau.

3. Roedd y Cyngor wedi cytuno eisoes y gall myfyriwr sy'n byw yn llety'r Brifysgol wneud cais am ad-daliad 100 y cant am bob wythnos nad oeddent yn defnyddio'r llety os cawsant eu cynghori i beidio â dod nôl gan Lywodraeth Cymru. Atgoffwyd yr aelodau y byddai'r trefniant hwn yn dod i ben pan geir cadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod y myfyrwyr yn cael dod yn ôl i'r campysau fis nesaf.

4. Mae paratoadau nawr yn cael eu gwneud ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2021. Yn seiliedig ar brofiadau mis Medi 2020, byddai'r Brifysgol yn dilyn canllawiau'r llywodraeth ac yn rhoi'r profiad gorau posibl i fyfyrwyr, er mwyn diogelu sefyllfa ariannol y sefydliad a diogelu swyddi.

5. Rhaid i gyflwyniad y Brifysgol ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FFRHY) 2021 fod i mewn ar ddiwedd y mis. Bu hyn yn ymdrech 7 mlynedd, ac roedd y gwaith wedi cyflymu a chynyddu'n ddramatig dros yr wythnosau diwethaf. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai sesiwn wybodaeth ynglŷn â'r FfRhY yn cael ei threfnu i'r Cyngor maes o law. Ni fyddai canlyniad y Fframwaith yn hysbys tan y gwanwyn 2022.

6. Roedd y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) yn datblygu cynlluniau i roi hwb i ymchwil er mwyn dod dros effeithiau'r pandemig ac i

gynyddu'r gweithgaredd y tu hwnt i'r lefelau cyn y pandemig. Penodwyd Darlithwyr Cyswllt a Chynorthwywyr Addysgu Graddedig eisoes y tymor hwn o dan y fenter i hyrwyddo ymchwil, a'r bwriad oedd y byddai darparu cymorth addysgu ychwanegol yn caniatáu mwy o amser i staff academaidd wneud gwaith ymchwil.

7. Bu cynnydd ar draws yr holl adrannau yn nifer y ceisiadau israddedig o'r Deyrnas Gyfunol a chan fyfyrwyr rhyngwladol am fynediad ym mis Medi 2021. Byddai'r cynnydd hwn yn gwneud iawn am y gostyngiad yn nifer y ceisiadau o'r Undeb Ewropeaidd, na fyddent bellach yn gymwys i dalu ffioedd ar yr un lefel ag ymgeiswyr o Brydain o'r flwyddyn academaidd nesaf ymlaen. Roedd sylw'r Brifysgol yn awr yn canolbwyntio ar drosglwyddo'r ceisiadau'n dderbyniadau cadarn.

8. Roedd yn dod yn fwyfwy amlwg na fyddai'n ddoeth cynnal seremonïau graddio ym mis Gorffennaf 2021. Roedd opsiynau eraill ar gyfer digwyddiadau dathlu eraill yn nes ymlaen yn y flwyddyn - pryd y bydd cyfran fawr o raddedigion a'u teuluoedd wedi cael y brechlyn - yn cael eu hystyried.

**43. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2021-091).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r manylion diweddaraf am weithgaredd iechyd a diogelwch, wedi'i seilio ar yr adroddiad llawnach a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (Ll&Ch) ar 25 Chwefror 2021.

2. Yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd aelodau'r Pwyllgor Ll&Ch i ymestyn Strategaeth a Chynllun Gweithredu Iechyd Diogelwch a'r Amgylchedd am flwyddyn, i gwmpasu'r cyfnod 2018-22. Byddai hyn yn rhoi dyddiadau mwy realistig i gyflawni camau gweithredu y bu'n rhaid eu gohirio oherwydd COVID-19. Ond sicrhawyd aelodau'r Pwyllgor Ll&Ch y byddai unrhyw weithredu'n gysylltiedig ag anaf neu niwed i staff, myfyrwyr neu eraill yn cael eu rhoi ar waith yn ddi-oed.

**44. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd UMAber (COU2021-092).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn Undeb y Myfyrwyr (UMAber) ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

2. Roedd UMAber yn parhau i gadw cyswllt â myfyrwyr yn rhithiol i sicrhau bod pawb yn elwa o'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a gynigir os ydynt wedi dod nôl i Aberystwyth ai peidio. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys diangfeydd ar-lein a heriau Strava.

3. Croesawodd yr aelodau'r newyddion bod UMAber wedi cael cyllid i hyfforddi aelod staff mewn cymorth cyntaf iechyd meddwl, a'r nod oedd y byddai'r aelod staff dan sylw'n rhoi hyfforddiant pellach i gydweithwyr yn UMAber ac i fyfyrwyr.

**45. DIWEDDARIAD ARIANNOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2021-093).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad grynodeb o'r amrywedd pwysicaf yn erbyn cyllideb y sefydliad a gytunwyd am 2020-21, ac effaith yr amrywedd ar dybiadau cynllunio ariannol cyffredinol y Brifysgol. Cafodd adroddiad mwy cyflawn, yn disgrifio perfformiad ariannol y Brifysgol hyd at ddiwedd Chwarter 2 (31 Ionawr 2021), ei gyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph) ar 25 Chwefror 2021.

2. Roedd llif arian yn dal yn gadarnhaol, ac adroddiadau ariannol nawr yn rhoi asesiad chwarterol ynglŷn â chydymffurfio â'r cyfamod llif arian y cytunwyd arno yn rhan o fenthyciadau'r Adnodd Credyd Cylchdroawl a Chytundeb Adnodd y Cynllun Amharu ar Fusnes Mawr gan Coronafeirws. Croesawyd hyn gan aelodau'r Cyngor.

**46. MATERION STRATEGOL**

1. <u>Adfywio Strategaeth</u>

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2021-094).

   NODWYD

   1. Yn ystod ei ddiwrnod strategaeth ym mis Medi 2020, roedd y Cyngor wedi ystyried yr egwyddorion y tu ôl i adfywio Cynllun Strategol cyfredol y Brifysgol am 2018-23. Ers hynny, roedd Gweithrediaeth y Brifysgol wedi asesu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyfredol, yr amgylchfyd allanol, a sut y gallai'r Brifysgol edrych yn 2030.

   2. Dywedodd yr Is-Ganghellor fod y Brifysgol yn dal i fod mewn cyfnod o ailadeiladu - ar ôl sefydlogi'r sefydliad, roedd y sylw'n awr yn troi at ddiwylliant sefydliadol ac arferion mewnol. Roedd yr adroddiad felly yn cynnwys cyfres ddangosol o brosiectau i ymdrin â materion sylfaenol dros y blynyddoedd nesaf. Felly, roedd cynllun gweithredol yn hytrach na chynllun strategol yn cael ei gynnig.

   3. Atgoffwyd yr aelodau serch hynny y gallai'r Brifysgol ystyried symud prosiectau mawr yn eu blaen yn y cyfnod nesaf wrth i gyfleoedd addas godi, ac y byddai unrhyw gynigion o'r fath yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan y Cyngor fel sy'n briodol.

   4. Croesawodd yr aelodau eglurder dull yr Is-Ganghellor o gyflwyno blaenoriaethau strategol y sefydliad dros y blynyddoedd i ddod, a'r sefydlogrwydd y bwriedir i'r gweithredu ei roi.

5. Er bod yr adroddiad yn cynnig cynlluniau i hybu cyflogadwyedd, creu swyddi a datblygu sgiliau galwedigaethol yn yr ardal, anogwyd yr Is-Ganghellor gan yr aelodau i fynd ymhellach ar drywydd yr agweddau hyn. Yn benodol, dylid atgyfnerthu'r ymdrechion cyfredol i feithrin perthynas ag addysg bellach, awdurdodau lleol, a sefydliadau eraill.

6. Byddai'r Is-Ganghellor yn diwygio'r ddogfen blaenoriaethau strategol yng ngoleuni'r ymateb a gafwyd gan aelodau'r Cyngor. Wedyn cynhelir ymgynghoriad ar y cynigion gyda'r Senedd ac aelodau staff, cyn cyflwyno fersiwn derfynol y ddogfen i'r Cyngor i'w chymeradwyo'n ffurfiol [**GWEITHREDU:** Is-Ganghellor].

7. Yn rhan o fersiwn nesaf y ddogfen, byddai rhestr y camau gweithredu a gynigir yn cael ei blaenoriaethu ymhellach. Fel y cytunwyd yn flaenorol gyda'r Cyngor, byddai Dangosyddion Perfformiad Allweddol presennol y sefydliad yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cynorthwyo i gyflawni'r blaenoriaethau strategol newydd hyn.

2. <u>Strategaeth Ystadau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Ystadau, Adnoddau a Llety, yn ymgorffori adroddiad diwygiedig 'Strategaeth Ystâd Prifysgol Aberystwyth 2020' gan gwmni CBRE (COU2021-095).

NODWYD

1. Cafodd yr ymgynghorwyr allanol CBRE eu cyflogi gan y Brifysgol i ddatblygu Strategaeth Ystadau newydd a rhoi fframwaith i benderfyniadau cysylltiedig ag eiddo am y ddegawd nesaf.

2. Cyflwynwyd drafft cychwynnol adroddiad CBRE i'r Pwyllgor A&Ph ar 12 Tachwedd 2020. Yn y cyfarfod hwnnw, dywedwyd wrth yr aelodau bod Gweithrediaeth y Brifysgol wedi gofyn i waith ychwanegol gael ei wneud ym meysydd ymchwil a menter, a chynaliadwyedd.

3. Cyflwynwyd adroddiad diwygiedig CBRE i'r Pwyllgor A&Ph ar 25 Chwefror 2021. Roedd y fersiwn newydd yn rhoi asesiad manwl o'r ystâd fel y mae, dadansoddiad o'r ymgynghoriad â phrif randdeiliaid, ac ystyriaeth o'r bylchau mawr y byddai angen rhoi sylw iddynt yn y dyfodol.

4. Wrth ystyried yr adroddiad diwygiedig, teimlai aelodau'r Pwyllgor A&Ph na ellid ystyried bod yr adroddiad, er ei fod yn cael ei alw'n Strategaeth Ystadau, yn cyflawni’r swyddogaeth honno. Serch hynny, ystyriwyd bod adroddiad CBRE yn sylfaen defnyddiol iawn y gallai'r Brifysgol ei ddefnyddio i ddatblygu cynllun gweithredu cychwynnol ar gyfer ystâd y Brifysgol.

5. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y bydd yr adran Ystadau, Adnoddau a Llety yn datblygu cynllun gweithredu i waith cysylltiedig â'r ystadau dros y blynyddoedd nesaf gan adeiladu ar y sylfaen a roddwyd yn adroddiad CBRE. Byddai angen i'r cynllun hwn sicrhau ei fod yn cyd-daro ag is-strategaethau'r Brifysgol - yn cynnwys dysgu ac addysgu, a strategaethau ymchwil; yn ogystal â'r strategaeth ddigidol sy'n dechrau dod i'r amlwg.

**PENDERFYNWYD**

7. Mabwysiadu'r adroddiad 'Strategaeth Ystâd Prifysgol Aberystwyth 2020' yn sail i dywys datblygiad ystadau'r Brifysgol yn y dyfodol [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr yr Ystadau, Adnoddau a Llety].

8. Y dylid cyflwyno'r cynllun gweithredu am waith ar yr ystadau dros y blynyddoedd nesaf i'r Pwyllgor A&Ph i'w ystyried yn ystod yr hydref 2021 [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr yr Ystadau, Adnoddau a Llety].

3. <u>Dangosyddion Perfformiad Allweddol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio (COU2021-096).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno perfformiad y sefydliad ar 31 Ionawr 2021 yng nghyswllt y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunodd y Cyngor arnynt i fonitro cynnydd Cynllun Strategol y sefydliad.

2. Atgoffwyd yr aelodau mai dim ond unwaith y flwyddyn y mae rhai o'r pwyntiau data sy'n sail i'r dangosyddion yn cael eu diweddaru, ac nad oedd pob dangosydd wedi newid ers yr adroddiad blaenorol i'r Cyngor.

3. Trafododd yr aelodau'r camau y gellid eu cymryd i gynyddu nifer y myfyrwyr amser llawn sy'n astudio 40 credyd neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd yr Is-Ganghellor fod y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a’r Gwyddorau Cymdeithasol) wrthi'n datblygu strategaeth ynglŷn â hyn, ac y byddai'n cael ei rannu â'r Cyngor ar ôl ei ystyried gan y Senedd. Mynegodd nifer o aelodau'r Cyngor barodrwydd i gynorthwyo i ddatblygu'r strategaeth.

**47. PROSIECTAU MAWR:**

1. <u>Yr Hen Goleg</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2021-097).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion am gynnydd y prosiect, gan roi sylw arbennig i: ddatblygiad cynllunio hyd at Gam 4 RIBA; Caniatâd Adeilad Rhestredig; amcan cyfredol o gostau'r prosiect; sefyllfa cyllid cyfatebol, yn cynnwys cyllid allanol a gweithgaredd codi arian.

2. Roedd rhai o'r cyllidwyr allanol yn mynnu bod y Brifysgol yn darparu mannau parcio ar gyfer ymwelwyr i'r Hen Goleg. Yn dilyn trafodaethau ag Eglwys Sant Mihangel, cynigir bod y Brifysgol yn cytuno i brydles 25 mlynedd er mwyn darparu o leiaf 30 o fannau parcio ceir ym maes parcio'r eglwys. Roedd telerau arfaethedig y brydles wedi'u nodi yn yr adroddiad.

3. Cafodd Penawdau Telerau eu trafod â Chyngor Sir Ceredigion am brydles tair blynedd ar yr ardal golff bach nesaf at yr Hen Goleg, gyda'r bwriad o'i defnyddio i swyddfeydd safle'r contractwr ac i stori deunyddiau. Trwy ddarparu'r lle hwn ni fyddai angen i'r contractwr ddod o hyd i le ei hun yn y dref. Roedd telerau arfaethedig y brydles wedi'u nodi yn yr adroddiad.

4. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor A&Ph ar 25 Chwefror 2021, lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r ddwy brydles arfaethedig. Yn y cyfarfod hwnnw, roedd yr aelodau wedi ystyried hefyd y camau nesaf ynglŷn â chaffael contractwyr i'r prosiect.

5. Gofynnir am dendrau gan y contractwyr a gwblhaodd yr Holiadur Cyn-Cymhwyso erbyn diwedd mis Mai 2021, gyda golwg ar gyflwyno'r canlyniad i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n ffurfiol ar 09 Gorffennaf. Fe fyddai felly gyfnod byr ar gyfer cloriannu'r tendrau a dderbynnir, a chyflawni gweithgaredd peirianneg gwerth fel sy'n briodol. Gellid cymryd camau hefyd i ganfod ffynonellau posibl o gyllid ychwanegol i wneud iawn pe byddai unrhyw ddiffyg yn y cyllid.

6. Gan na fydd hwn yn gontract cynllunio ac adeiladu, byddai'r darpar gontractwyr yn seilio'u prisiau ar raglen waith sy'n bod eisoes ac felly'n dileu elfen o risg i'r contractwyr. Nododd yr aelodau serch hynny ei bod yn bosib y gallai'r prisiau a roddir fod yn uwch nag asesiadau'r Brifysgol ei hun o'r costau.

7. Wrth ystyried trefniadau llywodraethu cyfnod nesaf y prosiect, pwysleisiodd aelodau'r Pwyllgor A&Ph yr angen i sicrhau bod y broses yn effeithiol, a bod yr holl wybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor fel y gall wneud penderfyniad clir ar yr adeg briodol. Gofynnwyd felly i Weithrediaeth y Brifysgol gynnal sesiynau gwybodaeth gydag aelodau'r Pwyllgor A&Ph yn rheolaidd wrth i'r prosiect ddatblygu dros yr wythnosau nesaf, gan gynnwys yr amrywiol sefyllfaoedd posibl y paratoir ar eu cyfer wrth aros i'r tendrau gael eu cyflwyno.

**PENDERFYNWYD**

8. Cymeradwyo'r prydlesau a gynigir yn achos maes parcio Eglwys Sant Mihangel, ac ardal y golff bach [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol].

2. <u>Fferm Solar - Cynnig Graddfa Buddsoddiad</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cynghorydd Cynaliadwyedd (COU2021-098).

NODWYD

1. Cafodd cynnig graddfa buddsoddiad ei ddatblygu am fferm solar ger Fferm Penglais, a fyddai'n cynhyrchu 25 y cant o anghenion trydan blynyddol campws Penglais. Byddai hyn yn lleihau'n sylweddol gostau ynni ac allyriadau carbon y sefydliad, ac yn cefnogi addewid y Cyngor i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

2. Roedd cais yn cael ei wneud yn awr am gymeradwyaeth y Cyngor i fenthyca'r £2.5m o gostau cyfalaf i'r prosiect trwy fenthyciad Salix ychwanegol di-log. Byddai'r Brifysgol angen cymeradwyaeth y Cyngor Cyllido hefyd i gael benthyca mwy.

3. Ystyriwyd y cynnig gan y Pwyllgor A&Ph ar 25 Chwefror 2021, lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r cais am fenthyciad Salix.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo cais am fenthyciad Salix o £2.5m i gyllido costau cyfalaf y prosiect [**GWEITHREDU:** Cynghorwr Cynaliadwyedd].

**48. ADRODDIADAU DIWEDD BLWYDDYN**

1. <u>Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020</u>

DERBYNIWYD

1. Adroddiad cyfansawdd gan Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid; yn ymgorffori drafft yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol a archwiliwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020; eglurhad o'r cysoni rhwng y datganiad rheoli a'r datganiad statudol; a thestun drafft Llythyr Cynrychiolaeth y Brifysgol at yr Archwilwyr Allanol (COU2021-099).

2. Adroddiad diwedd blwyddyn Archwiliad Allanol KPMG am 2019–20 (COU2021-113).

NODWYD

3. Ar 15 Chwefror 2021, roedd yr aelodau wedi rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i Gytundebau Cyfleusterau diwygiedig ar gyfer benthyca o dan yr Adnodd Credyd Cylchdroawl a'r Cynllun Benthyciad Tarfu ar Fusnes Mawr gan Coronafeirws. Er bod y gymeradwyaeth wedi caniatáu i'r archwiliadau allanol symud ymlaen at y camau terfynol, ni ellid cwblhau'r archwilio mewn pryd i'r Brifysgol gyflwyno erbyn dyddiad cau estynedig CCAUC, sef 28 Chwefror 2021. Roedd y Cyngor Cyllido yn ymwybodol o'r datblygiadau ac wedi cytuno i roi estyniad pellach.

4. Roedd KPMG nawr wedi cwblhau'r archwiliad allanol i bob pwrpas, ac felly gallai'r Cyngor gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn ffurfiol. Cafodd canlyniad yr archwiliad allanol ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARS) ar 18 Mawrth 2021, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r corff llywodraethu gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

5. Y canlyniad ariannol gweithredol wedi'i archwilio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020 oedd diffyg o £5.4m. Fodd bynnag, byddai diffyg cyfrifo o £16.2m yn cael ei gofnodi yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon, yn gysylltiedig yn bennaf â cholledion actiwaraidd ar bensiynau a thâl amhariad ar werth cario ymlaen asedau sefydlog. Cafodd y cysoni rhwng y canlyniadau gweithredol a chyfrifo eu nodi yn adran Adolygiad Ariannol y Cyfrifon.

6. Croesawodd yr aelodau gywair a diwyg dogfen yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, a llongyfarchwyd Gweithrediaeth y Brifysgol ar gynnal archwiliad allanol cystal yn y fath amgylchiadau heriol.

**PENDERFYNWYD**

7. Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon terfynol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 [**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol].

8. Anfon y Llythyr Cynrychiolaeth arfaethedig at yr Archwilwyr Allanol [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

2. ASSUR (Datganiad Blynyddol Cynaliadwyedd)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2021-100).

NODWYD

1. Mae'n rhaid i'r Brifysgol gytuno ar yr Adroddiad Blynyddol o Sicrwydd Cynaliadwyedd i'w gyflwyno i'r Cyngor Cyllido ynghyd â'r Datganiadau Ariannol wedi'u harchwilio. Roedd yr adroddiad hwn yn dilyn fformat datgeliad safonol a awgrymir gan y Grŵp Strategaeth Cynaliadwyedd Ariannol, ac yn rhoi mecanwaith addas i roi prawf ar statws y sefydliad fel 'busnes hyfyw'.

2. Er bod y Ffin Cynaliadwyedd a Buddsoddi wedi lleihau o 8.6 i 7.8 y cant ers adroddiad y llynedd, roedd yn dal yn uwch na'r targed o 7 y cant.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo drafft yr Adroddiad Blynyddol Sicrwydd Cynaliadwyedd [**GWEITHREDU:** Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid].

**49. AROLWG GWELLA ANSAWDD (CYMRU)**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) (COU2021-101).

NODWYD

1. Disgwylir y bydd Arolwg Gwella Ansawdd allanol nesaf y Brifysgol yn cael ei gynnal gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) ym mis Ebrill 2022. Oherwydd sefyllfa COVID-19, cafwyd cytundeb rhwng y Cyngor Cyllido, yr ASA a phrifysgolion yng Nghymru ynglŷn â chwmpas diwygiedig i'r arolygon. Byddai'r Arolwg felly'n canolbwyntio’n unig ar sicrhau ansawdd, gyda'r bwriad o gynnal arolwg gwella ansawdd ar wahân yn y dyfodol.

2. Mae'n debygol y byddai gan hyn oblygiadau i drefniadau’r Brifysgol. Disgwylir na fydd angen cymaint o staff ar gyfer y broses bellach, ac y bydd angen cyflwyno llai o waith papur i'r Arolwg ymlaen llaw.

3. Ers yr Arolwg Gwella Ansawdd blaenorol daeth yn bosibl i gyrff llywodraethu osod gofynion ychwanegol ar yr ASA neu i ofyn am bwyslais penodol yng nghyswllt yr elfennau a arolygir. Ystyriwyd hyn gan yr aelodau a daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg yn y blynyddoedd diweddar a oedd yn peri pryder i'r graddau y byddai'n teilyngu gofyn i'r ASA ehangu ei Arolwg.

**PENDERFYNWYD**

4. Nad yw'r Cyngor yn ychwanegu gofynion ar yr ASA nac yn gofyn am roi pwyslais penodol ar elfennau o'r Arolwg Gwella Ansawdd allanol nesaf [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)].

**50. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLDEB**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant (COU2021-102).

NODWYD

1. Yn unol â gofynion statudol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus 2011 Cymru, mae'n rhaid i'r Brifysgol gyhoeddi adroddiad blynyddol yn manylu ar y modd y mae hi'n cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn.

2. Roedd drafft Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2019-20 yn rhoi braslun o'r cynnydd a wnaed gan y Brifysgol yn y cyfnod dan sylw wrth ymwreiddio cydraddoldeb ac amrywioldeb, ac wrth hybu diwylliant ac amgylchedd cynhwysol i'w myfyrwyr, ei staff ac i'r gymuned ehangach sy'n defnyddio'i hadnoddau a'i gwasanaethau.

3. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Ll&Ch ar 25 Chwefror 2021 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo.

4. Cafodd Adroddiad 2021 y Brifysgol ar y Bwlch Tâl rhwng y Rhywiau ei atodi hefyd er gwybodaeth at Adroddiad y Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant. Er nad oedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Brifysgol gyhoeddi'r wybodaeth, ers rhai blynyddoedd roedd y sefydliad wedi dewis cofnodi'r data yn allanol trwy borth Llywodraeth San Steffan a bwriadai wneud hynny eleni eto.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2019-20 [**GWEITHREDU:** Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant].

**51. DIWYGIADAU I ORDINHADAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori diwygiadau a gynigir i 'Ordinhad 5 - Y Cyngor: Datganiad o Brif Gyfrifoldebau' ac 'Ordinhad 6 - Y Cyngor: Clerc y Cyngor' (COU2021-103).

NODWYD

1. Yn unol â chais gan y Cyngor ar 26 Tachwedd 2020, cafodd y diwygiadau a gynigiwyd i Ordinhad 5 eu hystyried ymhellach gan Ysgrifennydd y Brifysgol. Gwnaed mân newidiadau i'r diwygiadau hynny lle'r oedd yn briodol.

2. Datblygwyd drafft o ddisgrifiad swydd yr Ysgrifennydd gan grŵp Ysgrifenyddion Prifysgolion Cymru, a chytunwyd ar hwnnw yn ei dro gan Gadeiryddion Prifysgolion Cymru a Phrifysgolion Cymru yn yr hydref 2020. Yn unol â Chynllun Gweithredu'r Brifysgol mewn ymateb i Adolygiad Camm ar drefniadau Llywodraethu Addysg Uwch

yng Nghymru, roedd diwygiadau'n cael eu cynnig nawr i Ordinhad 6 er mwyn ymgorffori'r disgrifiad swydd y cytunwyd arno'n genedlaethol.

3. Cafodd y diwygiadau a gynigiwyd i'r ddau Ordinhad eu hystyried a'u cadarnhau gan y Pwyllgor Ll&Ch ar 25 Chwefror 2021.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd i'r ddau Ordinhad [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**52. PENODI ARCHWILWYR ALLANOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU2021-104).

NODWYD

1. Yn dilyn ymarfer caffael yn 2018, dyfarnwyd tendr tair blynedd a hanner i KPMG i ddarparu gwasanaethau Archwilio Allanol. Serch hynny mae'n rhaid i'r Cyngor benodi'r Archwilwyr Allanol yn ffurfiol bob blwyddyn.

2. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 18 Mawrth 2021, lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor gytuno'n ffurfiol ar benodiad yr Archwilwyr Allanol.

**PENDERFYNWYD**

3. Penodi KPMG yn ffurfiol yn Archwilwyr Allanol am y flwyddyn yn dod i ben 31 Gorffennaf 2021, ar y ffi a nodwyd yn yr adroddiad [**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol].

**53. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Covid-19: Cofnod penderfyniadau (COU2021-105);

2. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2021-106);

3. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2021-107) a;

4. Dyddiadau cyfarfodydd 2021–22 (COU2021-108).

NODWYD

5. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**54. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (COU2021-109):

1. Y Senedd (18 Tachwedd 2020; 05 Chwefror, a 10 Mawrth 2021);
2. Y Pwyllgor Buddsoddiadau (19 Tachwedd 2020);
3. Y Pwyllgor Taliadau (26 Tachwedd 2020);
4. Y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (25 Chwefror 2021); a
5. Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (25 Chwefror 2021).

NODWYD

6. Yr adroddiadau a ddaeth o'r is-bwyllgorau.